PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

# Polisi Bwyd Cynaliadwy

Mae'r Gwasanaethau Arlwyo yn cydnabod pwysigrwydd cynnig darpariaeth arlwyo ragorol gydag ystyriaeth ddyladwy i'r amgylchedd, ochr yn ochr â'u cyfrifoldeb i gynnig dewis o opsiynau bwyd, gan gynnwys bwyd iach a chynaliadwy i'n myfyrwyr, staff ac ymwelwyr. Lle bynnag y bo'n bosibl byddwn yn gweithio i ymgorffori ystyriaethau amgylcheddol a chymdeithasol i'r dewis o nwyddau a gwasanaethau y byddwn yn eu darparu.

Bydd y polisi hwn yn cydblethu â Strategaeth Gynaliadwyedd y Brifysgol 2020-2025 a Strategaeth Iechyd a Lles y Brifysgol; i gefnogi'r mentrau bwyd iach a chynaliadwy ac amgylcheddau cynaliadwy.

Fel yr amlinellwyd yn Strategaeth y Brifysgol 2030; bydd y Strategaeth Gynaliadwyedd â'r nod o gyflawni'r canlynol erbyn 2030:

- dangos ein bod yn gweithio tuag at dargedau a gydnabyddir yn genedlaethol megis
    - Carbon Niwtral
    - Dim Gwastraff
    - Statws prifysgol Masnach Deg
    - Caffael ein holl fwyd o ffynonellau cynaliadwy

Ein hamcan cyffredinol yw sicrhau gwelliant parhaus i gynaladwyedd ein gwasanaethau, ac yn benodol, mae'n fwriad gennym, o flwyddyn i flwyddyn, i sicrhau'r canlynol:

- Caffael bwyd gan gyflenwyr sy'n gweithredu'n rhagweithiol mewn ffordd gynaliadwy; Er enghraifft, cyflenwyr TUCO sy'n gweithio tuag at Net Sero
- Sicrhau bod cynnyrch tymhorol a lleol ar gael ar ein bwydlenni
- Cynyddu opsiynau llysieuol a fegan ar fwydlenni
- Trefnu bod pysgod o restr 'pysgod i'w bwyta' yr MCS ar gael, a pheidio byth â gweini pysgod o'r rhestr 'pysgod i'w hosgoi'.
- Sicrhau bod nwyddau Masnach Deg ar gael yn eang ar draws y Brifysgol
- Ailgylchu ym mhob man arlwyo yn unol ag arfer gorau ym Mhrifysgol Bangor
- Lleihau'r defnydd o gwpanau tafladwy a defnyddio llestri a gwydrau yn eu lle

**Monitro**
Mae'r Polisi hwn, sydd ar gael i'r cyhoedd, yn berthnasol i bob un o fannau bwyta'r Brifysgol yn ogystal â'n gwasanaeth arlwyo cludo bwyd. Bydd y Pennaeth Lleoliadau, Arlwyo a Lletygarwch yn adolygu'r Polisi, a'r cynnydd yn erbyn y targedau uchod, yn flynyddol a bydd Cyfarwyddwr Gweithrediadau Gwasanaethau Campws yn adrodd arnynt wrth Grŵp Cynaliadwyedd Prifysgol Bangor.

**Llofnod:** A Church
---------------------------------------------------
**Angela Church, Pennaeth Lleoliadau, Arlwyo a Lletygarwch**

**Dyddiad:** Mehefin 2024